Undeb Myfyrwyr Wrecsam
**Wrexham Students' Union**

# PECYN RECRIWTIO

## Cydlynydd Llais y Myfyrwyr

Dyddiad Cau: 5yp Dydd Gwener Mai 15 2026




www.wrexhamglyndwrsu.org.uk
Wrexham Students' Union, Mold Rd, Wrexham, LL11 2AW

# Croeso

Diolch am eich diddordeb yn swydd Cydlynydd Llais y Myfyrwyr yn Undeb Myfyrwyr Wrecsam. Rydym wedi'n cyffroi gan y cyfle i groesawu aelod newydd i'r tîm yn ystod yr amser trawsnewidiol hwn i'n Hundeb ac i gymuned ehangach y Brifysgol.

Daw ein cyffro o don o newid cadarnhaol sy'n ymestyn trwy Wrecsam. Mae dyfarnu Wrecsam yn ddinas, yn ogystal ag ailwampio Prifysgol Wrecsam a Undeb Myfyrwyr Wrecsam wedi rhoi bywyd newydd i'n cymuned. Mae ein lleoliad unigryw wrth ymyl y stadiwm pêl-droed hanesyddol a hwnnw'n gartref i Tîm Pêl-Droed Wrecsam sydd wedi'i gydnabod yn rhyngwladol, yn cyfrannu tuag at yr awyrgylch bywiog - wir i chi, mae Rob McElhenney a Ryan Reynolds wedi bod yn rhan o fwrlwm ein campws!

Ers ein sefydlu bron i ddegawd yn ôl, mae UMW wedi tyfu'n sylweddol. Rydym yn ymfalchïo yn yr hyn rydym wedi'i gyflawni ac yn ein henw da am ragori er gwaethaf ein maint yn sectorau addysg uwch Cymru a'r Deyrnas Unedig. Nawr, rydym yn chwilio am Gydlynydd Llais Myfyrwyr brwdfrydig a all gefnogi ac eiriol dros ein haelodaeth myfyrwyr.

Rydym yn eich annog i edrych ar y wybodaeth a ddarperir ac ystyried sut y gallwch gyfrannu i'n cennad. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod angen gwybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Dyma ddymuno'r gorau a phobl lwc,



Freya Groom
Llywydd



Marc Caldecott
Prif Swyddog Gweithredol



Carrie Bennett
Pennaeth Gwasanaethau Aelodaeth


www.wrexhamglyndwrsu.org.uk
Wrexham Students' Union, Mold Rd, Wrexham, LL11 2AW

# Ynglŷn ag Undeb Myfyrwyr Wrecsam

**Cennad a Gweledigaeth:** Mae Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UMW) wedi ymrwymo i rymuso pob myfyriwr/wraig ym Mhrifysgol Wrecsam i wireddu eu uchelgeisiau, gwneud newidiadau ystyrlon, a gwneud y mwyaf o'u hamser yn y Brifysgol Mae'r Undeb yn ymdrechu i fod wrth galon gymuned fyfyriwr lewyrchus, gan feithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol lle gall pob myfyriwr/wraig ffynnu.


**Gwerthoedd Craidd:** Mae UMW wedi ymrwymo i fod yn lle dibynadwy, deinamig, a chynhwysol sy'n grymuso ei fyfyrwyr. Y gwerthoedd hyn sy'n arwain gweithredoedd a mentrau yr Undeb, gan sicrhau ymagwedd a all ymateb ac addasu i anghenion myfyrwyr a hyrwyddo cynwysoldeb trwy chwalu rhwystrau.
Gwasanaethau a Chyfleusterau: Mae'r Undeb yn darparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys cyngor, cymorth, a mannau cymdeithasol megis Glyn's Bar & Lounge, sy'n ganolbwynt i weithgarwch myfyrwyr. Mae'r Undeb hefyd yn cefnogi nifer o glybiau a chymdeithasau, sy'n cynnig cyfleoedd i ddarganfod diddordebau newydd, meithrin sgiliau a chysylltu â chyfoedion i fyfyrwyr.

**Gwaith Allweddol:**

- Lles Myfyrwyr: Mae UMW yn hyrwyddo profiad iach o'r Brifysgol trwy amryw ddigwyddiadau a gwasanaethau cymorth sydd â'r nod o wella lles myfyrwyr.
- Cymorth Academaidd: Mae'r Undeb yn cynnig cyngor ac adnoddau i helpu myfyrwyr i llwyddo'n academaidd ac ennill sgiliau ychwanegol ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r Brifysgol.
- Eiriolaeth a Chynrychiolaeth: Mae UMW yn sicrhau fod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed ym mhrosesau gwneud penderfyniadau y Brifysgol, gan ddadlau dros fuddiannau myfyrwyr yn lleol ac yn genedlaethol.

**Ffocws y Dyfodol:** Mae UMW â'i ffocws ar ehangu ei wasanaethau, gwella arferion cynaladwyedd, a meithrin cymuned fwy cynhwysol. Mae'r Undeb wedi ymrwymo i wella'n barhaus ac i addasu i anghenion ei aelodaeth wrth iddynt ddatblygu. Bydd y ffocws hefyd ar ddatblygu cynllun newydd a symud UMW i adeilad newydd tra'n cynnal lefel ardderchog o wasanaeth i staff a'i aelodau yn ystod y trawsnewid.
I gael rhagor o wybodaeth, gweler gwefan UMW.

# Ein Strwythur Staffio




[www.wrexhamglyndwrsu.org.uk](http://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk)
Wrexham Students' Union, Mold Rd, Wrexham, LL11 2AW

# Cydlynydd Llais y Myfyrwyr
# Disgrifiad Swydd a Manyleb yr Unigolyn

**Cyflog:** £26092.90
**Hyd y contract:** Parhaol
**Yn atebol i:** Pennaeth Gwasanaethau'r Aelodaeth
**Oriau Gwaith**: 35 awr yr wythnos
**Lleoliad gwaith:** Prif gampws Wrecsam

**Diben y swydd:**

Bydd deilydd y swydd hon yn gyfrifol am fonitro a chasglu adborth gan fyfyrwyr trwy ystod o ddulliau, gan gynnwys UNITU, Fforymau Llais y Myfyrwyr, a sianeli rhoi adborth eraill. Byddant yn cefnogi y Swyddogion Sabothol wrth ddadansoddi yr adborth hwn, paratoi adroddiadau, a sicrhau fod y prif ganfyddiadau yn cael eu cyfleu'n effeithiol i'r Brifysgol trwy'r pwyllgorau a'r cyfarfodydd perthnasol.

Ar ben hyn, bydd deilydd y swydd hon yn gweinyddu y system Cynrychiolwyr Cwrs, gan gynnwys cydlynu etholiadau, hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr, a rheoli'r adborth myfyrwyr ar-lein (UNITU). Nhw fydd hefyd wrth y llyw yn Undeb y Myfyrwyr wrth gynnal ymgyrch Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) a chyflawni prosiect i ailgyflwyno'r Modiwl Eiriolaeth sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae'r swydd hefyd yn cynnwys olrhain a chofnodi effaith adborth gan fyfyrwyr a dangos canlyniadau a gwelliannau.

Cydlynydd Llais y Myfyrwyr
Disgrifiad Swydd a Manyleb yr Unigolyn

| | |
|---|---|
| **Adborth Myfyrwyr a Dealltwriaeth** | • Casglu, monitro, a dadansoddi adborth gan fyfyrwyr dros amryw ffynhonnell, gan gynnwys UNITU, Fforymau Llais y Myfyrwyr, arolygon, a dulliau eraill.<br>• Adnabod prif themâu, tueddiadau, a materion a godir o adborth a gweithio gyda'r Swyddogion Sabothol i roi adroddiadau clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth at ei gilydd.<br>• Cefnogi Swyddogion Sabothol wrth gyflwyno adborth a blaenoriaethau myfyrwyr ar bwyllgorau y Brifysgol, gweithgorau, a chyfarfodydd ffurfiol eraill.<br>• Mae'r swydd hefyd yn cynnwys olrhain a chofnodi effaith adborth gan fyfyrwyr a dangos cynnydd a chanlyniadau |
| **System Cynrychiolwyr Cwrs** | • Gweinyddu'r System Cynrychiolwyr Cwrs, gan gynnwys recriwtio, etholiadau, a'r cyfathrebu presennol gyda chynrychiolwyr.<br>• Cynllunio a darparu sesiynau hyfforddi deniadol ac effeithiol ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs.<br>• Darparu cefnogaeth barhaol ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs i sicrhau eu bod wedi cael eu grymuso i gasglu a rhannu adborth gan fyfyrwyr yn effeithiol. |

# Cydlynydd Llais y Myfyrwyr
# Disgrifiad Swydd a Manyleb yr Unigolyn

| | |
|---|---|
| **Rheoli UNITU** | • Goruchwylio a rheoli'r adnodd casglu adborth myfyrwyr (UNITU), sicrhau ei fod yn cael ei hyrwyddo, ei fonitro, a'i ddefnyddio at ddal barn myfyrwyr cynrychioliadol.<br>• Cydweithio gyda rhanddeiliaid y Brifysgol i sicrhau fod UNITU yn parhau i fod yn ddull ysgogi deialog a gweithredu effeithiol. |
| **Ymgyrchoedd a Phrosiectau** | • Bod wrth y llyw yn Undeb y Myfyrwyr yn arwain ymgyrch Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (AMC), cydlynu cyfathrebu, adnoddau, a gweithgareddau i ennyn cyfranogiad.<br>• Arwain y prosiect i ailgyflwyno y Modiwl Eiriolaeth sydd wedi ennill sawl gwobr, gan weithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau llwyddiant. |

Cydlynydd Llais y Myfyrwyr
Disgrifiad Swydd a Manyleb yr Unigolyn

| | |
|---|---|
| **Gwelliant Parhaus a Chydweithio** | • Gweithio ar y cyd gyda staff yr Undeb, y Swyddogion Sabothol, a phartneriaid y Brifysgol i gryfhau strwythurau llais y myfyrwyr.<br>• Cyfrannu i'r gwaith datblygu prosesau, adnoddau, a systemau sydd ar droed er mwyn gwella sut y caiff adborth myfyrwyr ei gasglu, ei gyfleu, a'i weithredu. |
| **Cyffredinol** | • Ymddwyn yn unol â holl bolisïau a gweithdrefnau yr Undeb a'r Brifysgol.<br>• Cyflawni dyletswyddau gan roi sylw dyledus i Gyfleoedd Teg.<br>• Ymgymryd â dyletswyddau eraill fel y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl.<br>• Mynychu a darparu adroddiadau i'r cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw.<br>• Cyflawni dyletswyddau ar safleoedd eraill y Brifysgol pan fo angen.<br>• Ymroi i hyfforddiant neu gyfleoedd i ddatblygiad proffesiynol parhaus lle bo'n briodol. |

# Cydlynydd Llais y Myfyrwyr
# Disgrifiad Swydd a Manyleb yr Unigolyn

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Addysg a Chymwysterau** | | |
| Wedi ennill hyd at radd Brifysgol | | |
| **Profiad a Gwybodaeth** | | |
| Ymwybodol o strwythurau cynrychioli myfyrwyr | | |
| Ymwybodol o strwythurau democrataidd myfyrwyr | | |
| Profiad o fod yn rhan o dîm yn gweithio tuag at ddwyn ffrwyth | | |
| Dealltwriaeth o swyddogaeth sefydliad ymgyrchu mewn Addysg Uwch | | |
| Profiad o weinyddu swyddfa gyffredinol | | |
| Profiad o gynllunio ymgyrchoedd trefnus gydag amcanion SMART | | |
| Profiad o hyfforddi gwirfoddolwyr | | |
| Profiad o weinyddu gwefan sylfaenol | | |
| Profiad o weithio mewn Undeb Myfyrwyr | | |
| **Cymwyseddau Craidd** | | |
| Y gallu i feithrin perthnasoedd gweithio cryf ag amryw o randdeiliaid | | |
| Y gallu i weithio o dan bwysau ac i derfynau amser tynn | | |
| Sgiliau rhyngbersonol rhagorol | | |
| Ymagwedd egnïol a chadarnhaol tuag at weithio | | |
| Sgiliau gwasanaethu cwsmeriaid rhagorol | | |
| Yn medru'r Gymraeg | | |

# Buddion Staff

**Cyfraniadau Pensiwn:**
- 5% gan y Cyflogwr
- 6.5% - 6.8 % gan y Gweithiwr

**Buddion eraill:**
- Cynllun Beicio i’r Gwaith
- Aelodaeth Gampfa Ostyngedig
- Cynllun Cynorthwyo Gweithwyr
- Parcio am Ddim
- Cynllun Medicash
- Iechyd Galwedigaethol
- Meithrinfa ar y safle
- Cegin Staff a Lluniaeth
- Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllys

# Y Camau Nesaf

I gael sgwrs anffurfiol ac os oes unrhyw gwestiynau, cysylltwch â: Carrie Bennett, Pennaeth Gwasanaethau Aelodaeth

Carrie.Bennett@Wrexham.ac.uk



# Ymgeisio:

- Eich CV cyflawn
- Datganiad ategol sy’n cyd-fynd â Manyleb yr Unigolyn
- Manylion geirda dau gyflogwr

Trwy e-bost at: carrie.bennett@wrexham.ac.uk erbyn 5yp ar Mai 15 2026.